Disgrifiad Swydd:

**Prentis mewn Garddwriaeth** gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mae hwn yn gyfle i ennill sgiliau, profiad ymarferol a chymwysterau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Byddwch yn gweithio i gynnal a chadw a datblygu'r casgliadau planhigion a'r gerddi ac yn rhan o dîm sy'n cynorthwyo gweithrediadau garddwriaeth, diogelu planhigion, ymchwil a gweithgareddau addysg.

Bydd angen ichi fod yn unigolyn awyddus iawn gyda diddordeb mewn dysgu a chwblhau ein cynllun prentisiaeth dwy flynedd newydd. Ein nod yw rhoi i'r ymgeisydd llwyddiannus brofiad cynhwysfawr mewn garddwriaeth, cynnal a chadw gardd gyhoeddus a rheoli casgliadau planhigion.

Mewn partneriaeth gyda Choleg Sir Gâr, mae'r cynllun yn cynnwys rhyddhau diwrnod lle byddwch yn gweithio tuag at Dystysgrif y Gymdeithas Garddwriaeth Frenhinol Lefel Dau mewn Egwyddorion Garddwriaeth. Byddwch hefyd yn ennill Diploma City and Guilds Lefel Dau mewn Gwaith ar Sail Garddwriaeth tra byddwch yn gweithio. Caiff y cymwysterau eu darparu dan y Fframwaith Prentisiaeth Garddwriaeth (Cymru). Bydd cyfleoedd eraill yn cynnwys cynadleddau, tystysgrifau hyfforddiant ymarferol a lleoliadau gwaith mewn gerddi sy'n bartneriaid.

Amlinelliad

Mae hon yn swydd sefydlog amser llawn am gyfnod penodol o ddwy flynedd yn cychwyn ym mis Medi 2026 neu'n gynharach drwy gytundeb gan y ddwy ochr. Yr oriau hyfforddiant yw 37.5 awr yr wythnos ar unrhyw bum diwrnod allan o saith yn ôl yr angen. Mae'r oriau gwaith nodweddiadol o 8.00am i 4.00pm. Bydd lwfans gwyliau blynyddol o 33 diwrnod gan gynnwys gwyliau'r banc.

Y gyflog yn y swydd hon fydd y gyflog berthnasol i brentis yn unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan y llywodraeth.

Rydym yn eich annog i archwilio gwefan yr Ardd Fotaneg i gael gwybod rhagor am ein cenhadaeth a'n gwaith. www.botanicgarden.wales

Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ymholiadau anffurfiol a dylech eu cyfeirio at Ayshea Cunniffe-Thomas, y Cydlynydd Prentisiaeth - ayshea.cunniffethomas@gardenofwales.org.uk

Dylid anfon ceisiadau ar ffurf llythyr cynnwys at Lorna Lewis, Rheolwr AD HRManager@gardenofwales.org.uk. Dylai'r llythyr cynnwys roi manylion eich diddordeb yn y swydd, profiad perthnasol ac unrhyw wybodaeth bellach yr hoffech i'r panel ei hystyried. Mae CV hefyd yn dderbyniol ond nid yn orfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 7th Mehefin 2026.

**Disgrifiad Swydd**

Teitl y Swydd – Prentis mewn Garddwriaeth

Adran - Garddwriaeth

Yn atebol i – Cydlynydd Prentisiaeth; Garddwriaethwyr Uwch

Gan weithio fel aelod o'r tîm Garddwriaeth yn yr Ardd Fotaneg, bwriedir y brentisiaeth ar gyfer rhywun sydd â'r ysgogiad i ddilyn gyrfa fel garddwriaethwr proffesiynol a bydd yn eich galluogi i ennill cymhwyster wrth ddatblygu eich sgiliau garddwriaeth a chyfrannu at gynnal a chadw a datblygu casgliadau planhigion yr Ardd Fotaneg a'r gerddi thema.

Cyfrifoldebau

1 Cwblhau Tystysgrif RHS Lefel 2 mewn Egwyddorion Garddwriaeth fel elfen rhyddhad diwrnod.

2 Symud drwy'r adrannau garddwriaeth gan weithio gyda'r Garddwriaethwyr Uwch a'r Garddwriaethwyr i ennill profiad ym mhob agwedd ar arddwriaeth o fewn gardd fotaneg.

3 Cymryd rhan mewn lluosogi a chynnal a chadw meithrinfa; cynnal a chadw arddangosiadau a chasgliadau cyhoeddus mewn tai gwydr; cynnal a chadw amrywiaeth e eang o ddefnydd planhigion o goed i blanhigion bythol llysieuol; a chyfrannu at ofalu'n gyffredinol am y safle.

4 Defnyddio amrywiaeth o beiriannau garddwriaeth wrth reoli'r Ardd a'r ystâd ehangach o ddydd i ddydd.

5 Cael hyfforddiant mewn defnyddio'r gronfa ddata cofnodion planhigion wedi ei darparu gan y Swyddog Cofnodion Planhigion.

6 Gwneud asesiadau gwaith anffurfiol wedi eu gosod gan y Cydlynydd Prentisiaeth: gan gynnwys adnabod planhigion, cadw dyddiadur gwaith a chynhyrchu cardiau swydd.

7 Ymgymryd â gwaith cwrs a phrosiectau ysgrifenedig a thasgau yn cael eu gosod fel rhan o'r rhaglen yn eu hamser eu hunain.

8 Cymryd rhan mewn lleoliadau mewn gerddi neu sefydliadau perthnasol eraill am hyd at bedair wythnos yn ystod eu daliadaeth.

9 Gweithio o fewn y safonau iechyd a diogelwch sydd wedi eu gosod yn enwedig ar gyfer defnyddio peiriannau ac wrth weithio o gwmpas y cyhoedd.

10 Bod ar ddyletswydd penwythnos ar gyfer yr Adran yn ôl y rhestr dyletswydd penwythnos.

11 Cymryd rhan yn nigwyddiadau'r Ardd, a gweithgareddau allestyn cyhoeddus ac addysgol yn ôl yr angen.

12 Cefnogi'r Adran Garddwriaeth wrth greu defnydd ar gyfer cynnwys y cyhoedd yng ngwaith a gweithgareddau GFGC mewn cysylltiad â'u swyddogaeth a'r meysydd a'r casgliadau lle maent yn gweithio.

13 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen yn rhesymol.

14. Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Mae’r meini prawf cymhwyster canlynol yn gymwys i’r Cynllun. Rhaid i ymgeiswyr allu dangos, os gofynnir iddynt, eu bod yn bodloni’r gofynion a restrir isod.

1. Bod yn ddinesydd o’r Deyrnas Gyfunol neu fod â hawl i weithio yno.

2. Ddim yn meddu ar gymhwyster ar lefel pedwar ac uwch yn y Fframwaith Credyd a Chymhwyster ar gyfer Cymru.

Sylwch fod y meini prawf yn alinio nid yn unig â deddfwriaeth ond â gofynion y cynllun yn unol â Choleg Sir Gâr.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael i drin yn llai ffafriol na chais wedi ei gyflwyno yn Saesneg.

Mae’r Ardd yn cadw’r hawl i gau’r hysbyseb hon yn gynnar os bydd digon o geisiadau’n cyrraedd.